

## Cwestiynau Cyffredin Cyfrifon Dysgu Personol

### 1. Pwy sy'n gymwys / ddim yn gymwys?

Rhaid i unigolion:

- Breswyllo yng Nghymru
- Fod eisiau ennill sgiliau/cymwysterau mewn sectorau sydd â blaenoriaeth
- Fod yn 19 oed neu'n hŷn

Yn ogystal, rhaid i unigolion fodloni o leiaf **un** o'r meini prawf canlynol:

- Bod yn gyflogedig (gan gynnwys hunangyflogedig) ac yn ennill llai na'r incwm canolrifol (£29,534), neu
- Yn weithwyr ar gytundebau dim oriau, neu
- Staff asiantaeth, neu
- Fod mewn perygl o golli ei swydd, neu
- Yn droseddwyr ar ddiwrnod rhyddhau
- Yn ychwanegol, fe all gofalmwyr llawn amser (sy'n cael eu talu neu sy'n gweithio'n ddi-dâl) gael cynnig darpariaeth gyllidol PLA ble mae capasiti ar gyrsiau sydd eisoes yn bodoli (e.e. llenwi).

### 2. Sut y gellir cael mynediad at y rhaglen?

Gall unigolion wneud cais uniongyrchol i'r colegau drwy Cymru'n Gweithio ar 0800 028 4844, neu ewch i [www.workingwales.gov.wales](http://www.workingwales.gov.wales)

### 3. A oes angen unrhyw sgiliau neu gymwysterau penodol?

Gan fod y rhaglen wedi'i hanelu at unigolion a hoffai newid yn eu gyrfa, nid oes angen gwybodaeth flaenorol am y sector. Gellir cael mynediad i rai o'r cyrsiau heb sgiliau neu gymwysterau penodol. Cyn dechrau'r cwrs, bydd unigolion yn cael cynnig datblygu cynllun hyfforddi fydd yn nodi'r cyrsiau / cymwysterau sydd ar gael iddynt i'w cynorthwyo i wneud cynnydd yn eu gyrfa ym mha bynnag sector a ddewisir.

### 4. A allaf wneud cais am fwy nag un cwrs?

Bydd pob dysgwr yn cael cynnig asesiad annibynnol cyn dechrau dysgu er mwyn sicrhau bod y gwaith dysgu cywir yn cael ei ystyried a'i gwblhau. Un cymhwyster yn unig y gall unigolyn ei gwblhau ar y tro, ac mae'n rhaid iddo gyd fynd â symud ymlaen at gyflogaeth yn y sector o'u dewis. Gall hyn gael ei gwblhau drwy Gymru'n Gweithio neu drwy'r coleg. Bydd Cymru'n Gweithio'n cyfeirio unigolion cymwys i'r coleg perthnasol.

### 5. Sut ydw i'n gwybod pryd fydd y cwrs yn cael ei gynnal?

Bydd y coleg yn gwneud eu gorau i fodloni anghenion pawb wrth gynllunio dyddiadau ac amseroedd i gynnal y cyrsiau. Mae'r colegau yn hyblyg ac yn ceisio darparu addysg sy'n cyd-fynd ag ymrwymadau teuluol a gwaith pobl. Bydd eich argaeledd yn cael ei drafod yn ystod eich asesiad cyn-derbyn.

### 6. A ydych yn gallu gwneud un o'r rhain os oes gennych radd eisoes

Gallwch. Fodd bynnag, os ydych yn astudio'n llawn amser ar gyfer gradd neu unrhyw gymhwyster ffurfiol arall ar bryd, ni fydddech yn gymwys.

### **7. Beth yw Cymru'n Gweithio a sut allant fod o gymorth?**

Mae Cymru'n Gweithio yn darparu dull symlach at gefnogi cyflogaeth gan gynnig pwynt cyswllt sengl i unigolion, a thrwy hynny, gael mynediad at y cyngor a hyfforddiant arbenigol, unigryw sydd ei angen arnynt i ddod o hyd i, a chadw cyflogaeth hirdymor, dda. Mae gwasanaeth cynghori rhad ac am ddim yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb i unrhyw un dros 16 oed sydd ddim mewn addysg llawn amser ac sydd eisiau sicrhau swydd. Mae eu cymorth cyflogadwyedd drwy Raglen Gyrfa Cymru Camau at Gyflogaeth yn cynnwys hyfforddiant swydd benodol, chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, magu hydref, paratoi at gyfweiliad a sicrhau profiad gwaith. Fe all yr ymgynghorwyr arbenigol gyfeirio pobl i raglenni ble gallant gael mynediad at gymorth gofal plant a chymorth gyda thrafnidiaeth. Bellach, dyma'r brif sianel ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyflogaeth a hyfforddiant.

### **8. Sut mae'r cyrsiau yn cael eu hariannu?**

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 100% o gost y cwrs.

### **9. Faint fydd o'n gostio i mi?**

Bydd y cwrs yn cael ei ariannu 100% gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd angen ichi sicrhau bod gennych yr amser angenrheidiol i ymrwymo i fynychu a chwblhau'r cwrs.

### **10. A fydd rhaid imi ad-dalu ffioedd y cwrs pe na bawn i'n gallu cwblhau'r cwrs?**

Na fydd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol yn llawn. Rydym yn deall bod amgylchiadau personol yn newid i unigolion ac efallai y bydd sefyllfaoedd ble na all cyfranogwyr barhau â'u cwrs. Ble mae unigolyn yn tynnu'n ôl o gwrs, a cyn gwneud cais am gwrs Cyfrif Dysgu Personol arall, byddent yn parhau'n gymwys cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhaglen. Fodd bynnag, pe bai unigolyn yn rhoi'r gorau iddo fwy nag unwaith byddai Llywodraeth Cymru yn cynghori nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid ar gyfer Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol yn y dyfodol.

### **11. Pam bod y cyrsiau hyn wedi cael eu dewis?**

Mae prinder sgiliau o fewn Logisteg, Sero-Net a Gwaith Adeiladu Gwyrdd, Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Lletygarwch, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sectorau Digidol yn creu problemau recriwtio ymysg cyflogwyr. Dewiswyd y cyrsiau hyn yn dilyn ymgysylltu helaeth â chyflogwyr, rhanddeiliaid, grwpiau cynrychioladol a chyfranogwyr posib i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r prinder mewn sgiliau o fewn y sectorau hyn a rhoi cymorth i unigolion fynd i sectorau sydd ddim yn ystrydebol. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac fe all sectorau eraill gael eu hychwanegu yn y dyfodol.

### **12. Pa fath o gyfrif ydyw? Ydw i'n cael arian yn uniongyrchol?**

Ni fyddwch yn cael yr arian yn uniongyrchol, mae angen ichi gofrestru ar gyfer y cwrs. Bydd y coleg yn cael ei dalu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

### **13. Os yw'n Gyfrif Personol a fydd yn rhoi cymorth gyda chostau gofal plant, deunyddiau ar gyfer y cwrs ac ati?**

Mae'r coleg yn gweithredu 'cronfa gymorth i fyfyrwyr' y gellir ei defnyddio, lle bo'n briodol, ar gyfer addasu'r rhaglenni dysgu, trafndiaeth neu ofal plant, yn seiliedig ar amgylchiadau'r dysgwr unigol.